

Emanuel Almborg
Paul Eastwood
Nooshin Farhid
James Moore
Paula Morison
Jessica Warboys



Rumblestrip

Mae Rumblestrip yn dod â gwaith chwe artist ynghyd, sy'n rhoi'r argraff bod rhywbeth yn mynd o chwith, bod arwyddion y dylem fod yn rhoi sylw iddynt. Dônt o hyd i'r gwahaniaethau rhwng canlyniad ac effaith, a gwneir cysylltiad rhwng pethau sydd wedi digwydd, pethau sydd yn digwydd a phethau sydd eto i ddod. Maent yn dod â chynsail a rhagfynegiant at ei gilydd, y gorffennol na ellir ei gyffwrdd a'r dyfodol ansicr, gan dynnu sylw at arwyddion bod pethau ar fin newid, a bod llwybrau amgen i'r rhai yr ydym yn eu troedio ar hyn o bryd.

'Rumble-strip' yw'r llinell o baent trumog ar ymyl traffordd, a'i diben yw rhybuddio gyrwyr o berygl, i ddihuno gyrwyr cysglyd ac i atal damweiniau. Mae'n rhybudd, yn sŵn, yn wahaniaeth sy'n tynnu sylw at wyriad, a newid mewn cyfeiriad.

Mae pob artist yn y sioe ac yn y rhaglen gysylltiedig yn creu gwaith sy'n bodoli yn y foment ansicr hon o newid. Mae Emanuel Almborg wedi creu cyfocredd rhwng dau bwynt gwahanol mewn hanes a lleoliad - gan ddogfennu prosiect theatr ieuencid sy'n ymwneud â Therfysgoedd Beca yng Nghymru a'r terfysgoedd yn Llundain yn 2011, er mwyn olrhain patrymau mewn gormes a gwrthryfel. Gwnaeth Nooshin Farhid, gan weithio gyda Paul Eachus, greu ffilm yn seiliedig ar strwythur ffilm arall sy'n dilyn bwled yn hedfan i lawr stryd, gan chwilio am ei fan taro, rhywle rhwng cael ei danio a chyrraedd ei darged. Nid golygfa o'r gorffennol na'r presennol mohoni. Mae'n haen o'r ddau, mae'n bresennol ansicr ac yn ddynewariad. Disgrifia James Moore ei baentiadau fel 'lefelau o gêm nad yw'n bodoli'. Maent yn ceisio cyfleu rhywbeth diriaethol, sydd wedi datblygu o obsesiwn ein diwylliant â'r dynwariadau a'r ffuglenni hyn.

Lansiad: Dydd Gwener 3 Mai, 2019 6-9pm
Agor: 4 Mai - 13 Gorffennaf 2019

g39 Stryd Rhydychen, CAERDYDD CF24 3DT
Amseroedd agor – rhwng 11am a 5pm
ddydd Mercher i ddydd Sadwrn
Ffôn +44 (0) 29 2047 3633
g39.org @g39cardiff #g39cardiff
e:post@g39.org

Mae'r ofn o gael ei hanghofio wedi rhoi min ar waith Paula Morison. Dyma gatalog wedi'i archifo o drychinebau naturiol sy'n cyfrif yn ôl ond hefyd yn cyfrif ymlaen. Yn hytrach na brasgamu tua'r terfyn, mae hwn yn ffocws ar y man canol, ble mae diwrnodau sy'n dal i ddod yn fwy niferus na'r rhai sydd wedi bod. Mae Paul Eastwood yn defnyddio fideo, ysgrifen a lluniau fel ffordd o ddod â phethau'n fyw. Mae'n edrych ar waith celf ac yn ei fframio fel cynhyrchiad cymdeithasol a dull o adrodd straeon diwyllianol. Perfformia gyda'r gwrthrychau ac yn eu plith, er mwyn actio ystyr posibl eu naratif a'u swyddogaethau. Mae ei ddiddordeb mewn tameidiau wedi eu dadleoli - o iaith, arteffactau a diwylliant, a sut maent wedi dod i olygu pethau newydd. Yn ei ffilm Hill of Dreams 2016, mae Jessica Warboys yn cyfeirio at lyfr yr awdur ffantasi o Gymru, Arthur Machen o'r un enw, sy'n rhannu ei atgofion o gefn gwlad Gwent, lle ganwyd Warboys ganrif yn ddiweddarach. Mae trawsnewidiad golygedig rhwng tirweddau hynafol a gwrthrychau cyfoes sy'n ymddangos ac yn diflannu, yn cynnig cyfres o batrymau i ni eu dehongli, neu dric consuriwr i ni ei ystyried.

Mae argoelion a rhagarwyddion yn dibynnu ar batrymau, ar ein tybiaethau ynghylch achos ac effaith, dymuniad i ddod o hyd i drefn a gwneud rhagfynegiadau. Mae'r rhagamcaniad hwn yn rhan o oroesi - ffordd o wneud synnwyr o ansicrwydd y dyfodol. Rydym bob amser yn edrych am y cyswllt rhwng pethau, neu'n eu trefnu yn ôl achos ac effaith, hyd yn oed pan fo'r dystiolaeth yn ein harwain i edrych yn rhywle arall.

DIWEDD

Mae proses **Emanuel Almborg** yn aml yn arwain at waith celf darlun byw, ond yn cynnwys cydweithrediadau a sefyllfaoedd ar sail ymchwil. Mae ymchwil fel arfer yn chwilio cwestiynau cymdeithasol a gwleidyddol cymhleth ac yn meithrin perthnasau rhwng digwyddiadau hanesyddol a chyfoes. Cwblhaodd Emanuel Almborg (eni. 1981, Sweden byw a gweithio Llundain, Lloegr) Raglen Astudio Annibynnol Whitney yn Efrog Newydd, 2015, ac ar hyn o bryd mae'n ymgeisydd doethurol yn Sefydliad Brenhinol y Celfyddydau, Stockholm. Mae ei waith wedi'i ddangos yn ddiweddar yn Moderna Museet, Stockholm, Oriel Whitechapel, Llundain, a Cell Project Space, Llundain.

Mae **Paul Eastwood** yn artist yn Wrecsam gyda modd o weithio sy'n archwilio celf fel ffurf ar gynhyrchu cymdeithasol ac adrodd straeon diwylliannol. Mae'n creu hanesion a delweddau o'r dyfodol gyda naratif i archwilio sut gall lle a gwrthrychau gyfleu hunaniaethau diwylliannol. Astudiodd Eastwood (eni. 1985, Wrecsam, byw a gweithio Llundain, Lloegr, a Wrecsam, Cymru) yn yr Academi Frenhinol ac Ysgol Gelf Wimbledon ac ef oedd enillydd y NOVA Art Prize agoriadol, Cymru, yn 2018. Mae arddangosfeydd diweddar yn cynnwys: Dyfodiaeth, prosiect unigol, Chapter, Caerdydd; NOVA, yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth ac Arcêd, Caerdydd, 2018; Segrgrair, Oriel Wrecsam, Preswylfa ac Arddangosfa Litmus, Oriel Davies, y Drenewydd; Unit(e) Summer school, g39, Caerdydd, trwy gydol 2017; Editions commission, Paul Eastwood a Lucy Woodhouse, Oriel Focal Point; Feast of Fools, TAP, Southend, 2016, a Severed, returning your love, Oriel Focal Point, 2015.

Mae gwaith **Nooshin Farhid** (eni. 1957, Tehran, Iran, byw a gweithio Llundain, Lloegr) yn ymwneud yn bennaf â'r darlun byw, sy'n cymryd ffurf gweithiau, gosodiadau, ymyriadau ac animeiddiadau sgrin sengl, ffotograffiaeth lonydd, a chynhyrchu testunau. Mae Nooshin Farhid wedi arddangos yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae prosiectau diweddar yn cynnwys UN-SPEAK, Canolfan Celfyddydau Cyfoes Lagos, Nigeria, This Fanciful Digression, Black Maria - Richard Wentworth, Adeilad Granary, Llundain, Rencontres Internationales Paris/Berlin/Madrid, llyfrgell fideo, La Gaîté lyrique, Paris, Cones, Banner Repeater, Llundain, Salon for a Speculative Future, Stiwdios Chisenhale, wedi'i guradu gan Monika Oechsler. Roedd yn gydweithredwr ers amser hir gyda'i phartner Paul Eachus, a chreodd lawer o weithiau gydag ef. Yn drist, bu farw Paul yn 2015.

Mae **James Moore** (eni. 1979, Caerdydd, byw a gweithio Caerdydd, Cymru) yn baentiwr. Mae ei baentiadau, yn ddoniol, yn eistedd mewn safle lletchwith rhwng ffaith a ffuglen, gan gyfeirio at fydoedd efelychiadol megis gemau cyfrifiadur a dioramâu amgueddfa. Yn 2002, cwblhaodd James MA yng Ngholeg Celf a Dylunio Chelsea. Cafodd sioeau unigol diweddar yn Elysium, Abertawe; Oriel Mwldan, Ceredigion; a llawer o sioeau grŵp, gan gynnwys Oriel Saatchi, Llundain; Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd; ac Oriel PAPER, Manceinion.

Paula Morison (eni. 1985, Swindon, Lloegr, byw a gweithio Llundain, Lloegr) yn defnyddio archifau, data a chofnodion fel man cychwyn ar gyfer gwaith cysyniadol. Mae Paula yn ail-roi gwybodaeth mewn cyd-destun, ac yn defnyddio iaith systemau i ddarganfod hiwmor, hurtrwydd a barddoniaeth mewn data ac ein hymdrechion i ganfod trefn. Astudiodd Paula yng Nghaerdydd o 2005 hyd at 2008 a bydd yn graddio o'r MFA yn Slade yn 2019. Yn 2018, cafodd Morison ei dewis ar gyfer Bloomberg New Contemporaries. Yr un flwyddyn, roedd yn dderbynnydd y Red Mansion Art Prize, a alluogodd hi i ddatblygu gwaith newydd o amgylch iaith ar gyfer ei harddangosfa yn yr Academi Frenhinol ym mis Mai 2019.

Jessica Warboys (eni. 1977, Newport, Cymru, byw a gweithio Suffolk a Berlin, Yr Almaen) yn gweithio gyda ffilm, paentiadau, cerflunwaith a gwydr lliw. Ond ei phrif gyfrwng o bosib yw'r pwerau trefniadol o debygrwydd a'n gallu a'n parodrwydd i fynd ati i'w ganfod. Astudiodd Jessica yng Ngholeg Celfyddydau Aber-fal ac Ysgol Gelf Slade, Llundain. Cafodd ei dewis i Artists' Film International, Oriel Gelf Whitechapel, Llundain yn 2013, a chymerodd ran yn DOCUMENTA 13, 2012. Ymhellach i ffwrdd, cymerodd ran yn 9^a Bienal do Mercosul, Porto Alegre, Brasil, 2013. Yn fwy diweddar, mae wedi arddangos yn Gaudel de Stampa, Paris; State of Concept, Athens; 1857, Oslo, 2015 a Kunstverein Amsterdam, 2016. Yn ystod 2016-17, cymerodd Warboys ran yn British Art Show 8 ac yn 2017 cafodd sioe unigol yn Tate St Ives.

Oriel yng Nghaerdydd a redir gan artistiaid yw **g39**, ac mae'n ymrwymedig i gyflwyno celfyddyd gyfoes ddigyfaddawd. Ers 1998, mae wedi sefydlu ei hun fel canolfan flaenllaw i weithgarwch artistiaid yng Nghymru, gan lunio rhaglen o arddangosfeydd, digwyddiadau, prosiectau oddi ar y safle a chyhoeddiadau. Mae g39 yn gweithio gydag artistiaid o Gymru a thu hwnt, gydag artistiaid sefydledig yn gweithio ochr yn ochr â rhai newydd. Mae g39 yn gweithredu WARP, sef Rhaglen Adnoddau Artistiaid Cymru. Gall defnyddwyr WARP gymryd rhan mewn seminarau, gweithdai, areithiau, teithiau a digwyddiadau cymdeithasol, a gallant fanteisio ar gyfleoedd amrywiol i artistiaid. Mae WARP yn darparu rhwydwaith beirniadu ar gyfer cymuned y tu mewn a thu hwnt i Gymru sydd, yn ei dro, yn creu cynulleidfa oriel amrywiol, gwybodus ac ymgysylltiedig.